



**PLANT A
PHOBL IFANC**



BETH YW PLANT A PHOBL IFANC?

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn diffinio plentyn fel bod dynol dan 18 oed, oni bai bod y gyfraith sy'n berthnasol i'r plentyn yn nodi ei fod yn dod i oed cyn hynny. Fodd bynnag, mae nifer o wahanol gyfreithiau ar draws y Deyrnas Unedig sy'n nodi terfynau oedran mewn gwahanol amgylchiadau. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys: amddiffyn plant, y rhai o dan 18 oed; oedran cydsynio, 16 a'r oedran cyfrifoldeb troseddol, 10.





PWY SY’N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

Cyn dechrau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn Ebrill 2016, pan fyddai plentyn neu berson ifanc yn cael eu hatgyfeirio i wasanaethau plant a theuluoedd, bydden nhw’n cael eu derbyn wrth ‘ddrws ffrynt’ y gwasanaeth fel Plentyn mewn Angen. Erbyn hyn fe’u gelwir yn blant a theuluoedd sy’n derbyn gofal a chymorth.

▼ Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd i wasanaethau plant yn ystod y flwyddyn

	2006 - 2007	2007 - 2008	2008 - 2009	2009 - 2010	2010 - 2011	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Bae'r Gorllewin	8,000	6,206	6,498	6,911	5,858	7,320	7,406	4,357	4,109
Pen-y-bont ar Ogwr	3,719	1,244	1,033	942	1,029	1,059	1,009	1,107	999
Castell-nedd Port Talbot	1,814	1,952	1,198	1,590	2,067	2,723	3,763	1,652	1,306
Abertawe	2,467	3,010	4,267	4,379	2,762	3,538	2,634	1,598	1,804

Yng Nghastell-nedd Port Talbot bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant a theuluoedd sy’n derbyn gofal a chymorth ond mae hyn wedi aros yn gymharol sefydlog ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn Abertawe, mae’n ymddangos bod y nifer o atgyfeiriadau a wnaed yn uwch ac mae’n codi a gostwng mwy na’r awdurdodau eraill yn yr ardal.



Mae ail-atgyfeiriad yn cael ei ddiffinio fel atgyfeiriad a wnaed i Wasanaethau Plant a Theuluoedd o fewn 12 mis o'r atgyfeiriad blaenorol. Gan mai nod pob awdurdod yw ateb anghenion cyn gynted ag sy'n bosibl a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, mae pob awdurdod yn gobeithio gweld cyn lleied o ail-atgyfeiriadau ag sy'n bosibl. Yn achos pob un o'r tri awdurdod mae nifer yr ail-atgyfeiriadau yn dilyn patrwm tebyg i nifer yr atgyfeiriadau.

▼ The number of referrals received to children's services during the year that were re-referrals

	2006 - 2007	2007 - 2008	2008 - 2009	2009 - 2010	2010 - 2011	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Bae'r Gornllewin	2,735	1,437	1,859	2,214	1,592	1,940	2,207	819	706
Pen-y-bont ar Ogwr	1,696	265	196	132	118	96	124	141	204
Castell-nedd Port Talbot	310	435	215	296	513	750	1,350	365	201
Abertawe	729	737	1,448	1,786	961	1,094	733	313	301

Er ei bod yn bwysig cydnabod y cynnydd a wnaed, mae nifer yr ail-atgyfeiriadau yn parhau i gynrychioli nifer uchel o achosion. Mae ail-atgyfeiriad yn awgrymu bod yr achos heb strategaeth ymadael briodol. Gall hefyd fod yn arwydd o ddiffyg gallu mewn gwasanaethau cam-i-lawr. Wrth symud ymlaen, byddai'n werth chweil cynnal dadansoddiad o'r achosion sydd wedi cau a'r rhai sydd wedi cael eu hail-atgyfeirio i ganfod a oes gwaith i'w wneud i leihau'r niferoedd ymhellach.

— ASESIAID CYCHWYNNOL


Mae asesiad cychwynnol yn gyfres o gwestiynau seiliedig ar anghenion datblygu'r plentyn, y gallu i fagu plant, teulu a ffactorau amgylcheddol. Ar ôl i riant, neu rywun â chyfrifoldeb riant roi caniatâd, neu os credir bod y plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, dylai'r gweithiwr cymdeithasol:



- Ofyn i'r holl asiantaethau eraill a oes ganddynt yr wybodaeth berthnasol, ac
- Ystyried unrhyw wybodaeth a gafwyd yn sgîl yr atgyfeiriad.
- Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol benderfynu a yw'r plentyn 'mewn angen' ac a oes modd ateb yr anghenion hyn trwy ddarparu gwasanaethau pellach. Efallai y bydd yr asesiad cychwynnol yn dangos bod angen asesiad craidd.

Nid oes rhaid i bob atgyfeiriad a wneir i wasanaethau cymdeithasol gael asesiad ffurfiol. Mae modd ateb anghenion rhai teuluoedd yn y gymuned heb ymyriad gan wasanaethau cymdeithasol. Dylai gweithiwr cymdeithasol cymwysedig gynnal pob asesiad cychwynnol.

▼ **Western Bay Initial Assessments**



Ym Mae'r Gorllewin mae nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at asesiad cychwynnol wedi cynyddu'n sylweddol er 2012-2013. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith 'sgrinio' a wneir i sicrhau mai dim ond gwaith priodol sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth a bod achosion nad ydynt yn diwallu'r drothwy ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyfeirio i ddarparwyr cymorth mwy priodol. O ran y teuluoedd na ddiwallodd y drothwy i dderbyn gwasanaethau neu a gafodd eu hasesu ond cafodd eu hachosion eu cau, byddai'n fanteisiol deall a aethant ymlaen i ddefnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau eraill yr atgyfeiriwyd hwy iddynt.



ASESIAD CRAIDD

Mae Asesiad Craidd yn darparu asesiad strwythuredig a manwl o anghenion plentyn neu berson ifanc os yw eu hamgylchiadau'n gymhleth. Mae'r Cofnod Asesiad Craidd yn darparu fframwaith strwythuredig i weithwyr cymdeithasol i gofnodi gwybodaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer eu dyfarniadau proffesiynol, hwyluso dadansoddi, gwneud penderfyniadau a chynllunio. Yna mae Cofnod Asesiad Craidd wedi'i gwblhau'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r cynllun ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dechrau cael gofal, mae asesiad craidd diweddar yn ofynnol ac fe'i defnyddir i lywio ei Gynllun Gofal cyntaf. Mae Asesiad Craidd yn parhau'r broses o gasglu'r wybodaeth angenrheidiol i fonitro cynnydd y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae'n ofynnol i gynghorau gwblhau pob asesiad craidd o fewn 35 diwrnod gwaith.

Ers gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'r Asesiad Cymesur wedi disodli'r Asesiadau Cychwynnol a Chraidd ac mae'n cael ei wneud pan fydd plant a'u teuluoedd yn dechrau derbyn cyngor a chymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol.

PLENTYN MEWN ANGEN

Mae gan gynghorau ddyletswydd i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i blant mewn angen yn eu hardal os bydd y gwasanaethau hynny yn cadw'r plentyn yn ddiogel ac yn iach. Gallai 'plentyn mewn angen' fod yn:

- Anabl (i gael diffiniad o anabledd gweler Deddf Plant 1989)
 - Anhebygol o gael neu fod â'r cyfle i gael safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb wasanaethau gan awdurdod lleol.
 - Anhebygol o wneud cynnydd o ran iechyd neu ddatblygiad; neu
 - Anhebygol o wneud cynnydd o ran iechyd neu ddatblygiad heb wasanaethau gan awdurdod lleol.
-



▼ Nifer y Plant mewn Angen 2009-10 i 2013-14

	2009 - 2010	2010 - 2011	2011- 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Bae'r Gorllewin	3,550	3,860	4,280	4,310	4,330
Pen-y-bont ar Ogwr	965	1,035	1,140	1,185	1,285
Castell-nedd Port Talbot	1,270	1,305	1,450	1,405	1,305
Abertawe	1,315	1,520	1,690	1,720	1,740

Po fwyaf yw poblogaeth y Plant mewn Angen, mwyaf yw'r galw am adnoddau'r awdurdod lleol. Rhaid i awdurdodau lleol nodi graddfa'r angen yn eu hardal a gwneud penderfyniadau ar y lefelau gwasanaeth maen nhw'n eu darparu. Gwneir hyn drwy asesiadau cychwynnol.

Mae nifer y plant mewn angen ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe wedi cynyddu tua 30% er 2009-2010. Ar y llaw arall, mae niferoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi aros yn gymharol sefydlog gyda chynnydd o lai na 10%. Gellir priodoli'r cynnydd yn niferoedd y plant mewn angen i nifer o wahanol ffactorau:

- Plant yn cael eu cadw'n ddiogel am gyfnod hwy o fewn eu teuluoedd neu mae achosion amddiffyn plant yn mynd yn blant mewn angen, am gyfnod cyn cau eu hachosion.
- Mae'r defnydd cynyddol o Orchmynion Llys fel Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig a Threfniadau Plentyn yn golygu bod yr achosion hyn bellach yn cael eu monitro a'u hadolygu yn hytrach na'u cau i wasanaethau cymdeithasol.
- Mae gwaith gyda phartneriaid a Gwasanaethau Atal ac Ymyrryd yn Gynnar wedi arwain at well dealltwriaeth o'r angen ac mae hyn hefyd wedi ychwanegu at niferoedd y plant mewn angen yn gyffredinol.

O'r tri awdurdod lleol sy'n sefyll o fewn Bae'r Gorllewin, Abertawe sydd â'r nifer fwyaf o Blant mewn Angen, ac mae hyn yn unol â'i phoblogaeth fwy. Fodd bynnag, o ystyried cyfradd y Plant mewn Angen fesul 10,000 o blant, roedd gan Gastell-nedd Port Talbot y gyfradd uwch yn 2013-2014.



▼ plant ar y cyfan mewn angen 2013 - 2014

	2011- 2012
Abertawe	370
Castell-nedd Port Talbot	470
Pen-y-bont ar Ogwr	440

Mae lledaeniad ethnig y boblogaeth gyffredinol ar yr un pryd (Cyfrifiad Canol-Blwyddyn 2015) yn dangos y nifer o bobl sy'n dweud eu bod o gefndir nad yw'n wyn fel 15,900 mewn poblogaeth o 502,000. Mae hyn yn rhoi canran o bobl o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn fel 3.2%. Mae'r graff yn dangos ffigur o 6% sy'n awgrymu ein bod yn gweithio gyda nifer anghymesur o bobl o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn ofalus gyda'r dehongliad hwn oherwydd gallai'r categori 'grŵp ethnig arall' a ddangosir yn y graff gynnwys nifer o deuluoedd Ewropeaidd gwyn. Bu cynnydd yn nifer y mudwyr o ddwyrain Ewrop sydd wedi symud i ardal Bae'r Gorllewin ac wedi ymgartrefu yno a byddai ardal Bae'r Gorllewin fwy na thebyg yn cyfrif am yr amrywiaeth hon.

Mae'r graff isod yn dangos dadansoddiadau'r boblogaeth Plant mewn Angen ar draws y tri awdurdod ym Mae'r Gorllewin.

▼ Bae'r Gorllewin – Ethnigrwydd Plant

	2010 - 2011	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014
Ethnigrwydd Anhysbys	0	3,860	4,280	4,310
Grŵp Ethnig Arall	965	1,035	1,140	1,185
Gwyn	1,270	1,305	1,450	1,405



COFRESTR AMDDIFFYN PLANT

Yn ystod asesiad cychwynnol os bydd awdurdod lleol yn nodi bod achos rhesymol i amau, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, bydd yn penderfynu pa gamau sydd eu hangen i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Gall hyn olygu galw cynhadledd amddiffyn plant i benderfynu a ddylid rhoi enw'r plentyn ar y gofrestr Amddiffyn Plant. Os bydd yr enw yn cael ei roi ar y Gofrestr bydd grŵp o weithwyr proffesiynol yn cael eu dyrannu i weithio gyda'r teulu i ddatblygu a chyflwyno Cynllun Amddiffyn Plant i sicrhau'r newid sydd ei angen.

▼ Bae'r Gorllewin – Cofrestr Amddiffyn Plant fesul Blwyddyn

	2010 - 2011	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	165	130	160	180	125
Castell-nedd Port Talbot	205	260	210	220	220
Abertawe	255	225	235	230	205

Bu gostyngiad yn nifer y plant yr ystyrir eu bod wedi dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol y mae eu henwau wedi'u rhoi ar y gofrestr Amddiffyn Plant ond mae hyn yn parhau i fod yn uchel fesul 10,000 o'r boblogaeth. Gallai'r gostyngiad hwn fod yn gysylltiedig â llwyddiant gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, gweithredu'r mesurau seiliedig ar ganlyniadau a threfniadau cynllunio mwy effeithiol.



PLANT SY’N DERBYN GOFAL

Mae plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal os darperir y gofal hwnnw gan yr awdurdod lleol naill ai o dan Adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu Adran 31 o Ddeddf Plant 1989. Mae plant yn dechrau derbyn gofal pan na fydd eu rhieni biolegol yn gallu darparu gofal parhaus dros dro neu’n barhaol. Gall plant dderbyn gofal naill ai o ganlyniad i gytundeb gwirfoddol gan eu rhieni neu o ganlyniad i orchymyn gofal. Gall plant gael eu rhoi gyda gofalwyr sy’n berthnasau (teulu), gofalwyr rhwydwaith (teulu estynedig/ffrindiau) neu ofalwyr maeth yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

▼ Nifer y Plant sy’n dechrau derbyn gofal fesul 10,000 o’r boblogaeth

	2006 - 2007	2007 - 2008	2008 - 2009	2009 - 2010	2010 - 2011	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	85	70	75	110	110	110	135	145	115
Castell-nedd Port Talbot	90	100	120	205	130	190	140	115	90
Abertawe	125	105	155	255	175	150	210	185	185

Mae cyfradd y plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru wedi aros yn gymharol sefydlog rhwng 2009 a 2014. Fodd bynnag, roedd pob un o’r tri awdurdod lleol ym Mae’r Gorllewin wedi gweld twf sylweddol yn nifer y plant sy’n derbyn gofal o 2008-2009.

▼ Nifer y Plant sy’n derbyn gofal fesul 10,000 o’r boblogaeth

	2006 - 2007	2007 - 2008	2008 - 2009	2009 - 2010	2010 - 2011	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	98	93	87	99	112	119	134	142	134
Castell-nedd Port Talbot	93	97	100	136	144	167	176	168	156
Abertawe	86	86	94	119	124	119	125	114	109



Yn sgîl y gostyngiad amlwg yng nghyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod 2012-2013 a 2014-2015 gellid disgwyl cwmp mwy dramatig yn y niferoedd sy'n dechrau derbyn gofal. Mae'r ffaith nad yw hyn wedi digwydd yn awgrymu bod Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi bod yn fwy effeithiol yn cwblhau episodau 'derbyn gofal' nag ydyw wedi bod yn eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae cofnodi nifer y plant sy'n derbyn gofal am o leiaf 12 mis yn ddefnyddiol am nifer o bwrpasau:

- Fe'i hystyrir yn gyfnod priodol i bwysu a mesur y cysylltiad posibl o dderbyn gofal a chanlyniadau penodol, e.e. agweddau ar berfformiad addysgol.
- Mae hefyd yn ddangosydd o ba mor effeithiol, neu beidio, efallai, y mae awdurdod lleol yn perfformio wrth gwblhau episodau 'derbyn gofal' gan sicrhau sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc trwy ddulliau eraill e.e. cartref adsefydlu i rieni.

▼ Plant sy'n Derbyn Gofal Parhaus am 12 Mis i 31 Mawrth 2015

	2006 - 2007	2007 - 2008	2008 - 2009	2009 - 2010	2010 - 2011	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	222	226	205	197	233	252	271	298	302
Castell-nedd Port Talbot	-	209	213	238	307	324	372	375	368
Abertawe	228	343	311	339	437	436	425	407	379



ADDYSG

Lle bo'n bosibl, mae rhieni'n ceisio osgoi newid ysgol eu plant er mwyn hyrwyddo sefydlogrwydd a chyfleoedd addysgol eu plentyn. Mae'r egwyddor hon yr un mor berthnasol i awdurdod lleol sydd â Chyfrifoldeb Rhieni fel Rhiant Corfforaethol. Yn wir, mae'r egwyddor hon, yn aml, yn arbennig o bwysig ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Ar ôl dioddef amhariad sylweddol yn gyson yn eu bywyd teuluol, yn aml mae'n hanfodol eu bod yn cadw'r un ysgol lle mae'r staff a'r plant yn eu hadnabod orau. Mae sefyllfaoedd lle byddai'n fuddiol i'r plentyn newid ysgol ond yn gyffredinol mae'n bwysig gwneud cyn lleied o newidiadau ag sy'n bosibl.

▼ Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal oedd wedi newid ysgol nid oherwydd trefniadau pontio yn y 12 Mis i 31 Mawrth 2015

	2010 - 2011	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	13	14	15	13	9
Castell-nedd Port Talbot	17	10	16	16	11
Abertawe	15	15	16	17	16

Mae perfformiad Abertawe yn is na chyfartaledd Cymru (13.5% ym Mawrth, 2015). Mae angen darn o waith manwl i ddeall yn llawn sut mae'r rhesymau niferus am newid lleoliadau ysgol yn rhyngweithio a sut gall Abertawe wella perfformiad yn y dyfodol.

Mae rhieni am i'w plant gael y dechrau gorau mewn bywyd a chyrraedd eu llawn botensial. Fel Rhieni Corfforaethol, mae gan awdurdodau lleol yr un dyheadau uchel ar gyfer eu plant nhw sy'n derbyn gofal.



PLANT SY’N GADAL GOFANEL

Oherwydd y niferoedd uchel o bobl ifanc sy’n cael eu derbyn i gael gofal dros y blynyddoedd diwethaf, bydd gwasanaethau gadael gofal ym Mae’r Gorllewin yn gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy’n gadael gofal yn y 2 flynedd nesaf.

Mae nifer o lwybrau ymadael posibl allan o Ofal/Llety Awdurdodau Lleol:

Mae’r person ifanc yn cyrraedd 18 oed, ac yna mae’r Gorchymyn Gofal yn dod i ben.

Mae’r person ifanc yn cyrraedd 16 ac nid yw’n destun Gorchymyn Gofal ond mae mewn llety o dan Adran 76 o’r SSWBA. Ar yr adeg hon gall y person ifanc arwyddo eu hunain allan o’r system Derbyn Gofal. Rhaid i hyn gael ei gymeradwyo yn y cyfarfod adolygu Plant sy’n Derbyn Gofal. Weithiau mae’r penderfyniad bod y person ifanc yn stopio derbyn gofal yn ymwneud â symudiad wedi’i gynllunio i fath arall o leoliad. Bydd lleoliad mewn mathau eraill o drefniant ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal dros 16 oedyn cael ei wneud oherwydd mai nhw yw’r ffordd orau o ateb yr anghenion wedi’u hasesu a’r canlyniadau a fwriadwyd sydd wedi cael eu nodi yn Rhan 6 o Gynllun Gofal a Chymorth y person ifanc, ac yn y Cynllun Llwybr (sy’n cynnwys Cynllun Gofal a Chymorth y person ifanc yn 16 oed). Yn gyffredinol, bydd y rhain yn ganlyniadau sy’n gysylltiedig â pharatoi’r person ifanc i’r trosglwyddiad i fyw yn fwy annibynnol fel oedolyn. Mae’r dewisiadau lleoliad yn debygol o gynnwys:

- ▶ tŷ llety â chymorth
- ▶ llety byw â chymorth
- ▶ llety annibynnol gyda chymorth fel y bo’r angen gan weithwyr cymorth tai.


Adolygiad o Gynllun Gofal a Chymorth y Plentyn sy’n Derbyn Gofal lle mae’r statws cyfreithiol yn Orchymyn Gofal ac mae trefniadau Lleoliad gyda Rhieni yn pennu bod digon o gynnydd wedi cael ei wneud sy’n golygu nad oes rhaid i’r Awdurdod Lleol rannu Cyfrifoldeb Rhieni mwyach â’r rhieni, ac yna gwneir penderfyniad i naill ai mynd yn ôl i’r Llys i geisio cam i lawr i Orchymyn Goruchwyliaeth 12 mis, neu ddiddymu’r Gorchymyn Gofal. Mae cynlluniau ar gyfer cymorth parhaus yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y plentyn a’r teulu yn cael digon o gymorth yn ystod y broses hon.



- Mae Gorchymyn Mabwysiadu'n cael ei roi.
- Mae rhywun sydd â Chyfrifoldeb Rhieni am blentyn sydd wedi cydsynio'n flaenorol i lety gwirfoddol o dan Adran 76 o'r Ddeddf SSWB yn tynnu'r cydsyniad hwnnw yn ôl ac yn gofyn bod y plentyn yn dychwelyd adref. Bydd rhaid i'r Awdurdod Lleol benderfynu a oes unrhyw beryglon parhaus/anghenion cymwys y gellir eu diwallu yn ddiogel trwy ddarparu gwasanaethau a chymorth heb fod y plentyn yn parhau i dderbyn gofal, ac os na, mae cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio ar unwaith gyda'r bwriad o gychwyn Achosion Gofal.
- Bydd plentyn sy'n cael ei letya o dan Adran 76 o'r Ddeddf SSWB yn cael ei adesydlu'n llwyddiannus i'r rhieni.
- Bydd plentyn yn destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu Orchymyn Trefniant Plentyn.


Felly, dylai cau'r bwch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a'u cyfoedion fod yn flaenoriaeth i bob awdurdod. Mae'r graff canlynol yn dangos cyrhaeddiad addysgol pobl ifanc 16 oed a hŷn nad ydynt yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth.

▼ Bae'r Gorllewin – Cymwysterau Plant sy'n Gadael Gofal



BAE'R GORLLEWIN - TROSEDDAU IEUENCTID

Yn ystod 2015-2016 cyflawnwyd 594 o droseddau gan bobl ifanc 10-17 oed ym Mae'r Gorllewin. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o droseddau a gyflawnwyd.



Roedd trais yn erbyn yr unigolyn yn cyfrif am bron 20% o'r troseddau a gyflawnwyd gan bobl ifanc yn ystod y cyfnod. Isod mae dadansoddiad o'r gwahanol fathau o droseddau a gyflawnwyd yn 2015-2016 ym mhob ardal awdurdod lleol.

Math o drosedd 2015-2016	Pen-y-bont ar Ogwr	Castell-nedd Port Talbot	Abertawe	Bae'r Gorllewin 2015-2016
TANAU BWRIADOL	0	1	0	1
TORRI MECHNÏAETH	3	0	0	3
TORRI RHYDDHAD AMODOL	0	1	2	3
TORRI GORCHYMYN STATUDOL	3	9	9	21
DIFROD TROSEDDOL	16	21	27	64
BWRGLERIAETH DDOMESTIG	3	3	2	8
TROSEDD CYFFURIAU	24	12	20	56
TWYLL A FFUGIO	2	0	2	4
TROSEDDAU MODURO	28	25	28	81
BWRGLERIAETH ANNOMESTIG	1	2	18	21
ARALL	4	2	5	11
TREFN GYHOEDDUS	19	10	17	46
GWAETHYGEDIG AR SAIL HIL	2	0	0	2
LLADRAD	4	3	9	16
TROSEDD RHYWIOL	8	8	12	28
DWYN A THRIN	36	18	32	86
DWYN CERBYD	3	6	16	25
TRAIS YN ERBYN YR UNIGOLYN	31	24	63	118
Cyfanswm	187	145	262	594



CAMFANTEISIO’N RHYWIOL AR BLANT A PHLANT COLL

Gan fod adnabod ac atal Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant yn flaenoriaeth ym Mae’r Gorllewin, mae systemau wedi cael eu datblygu i nodi a chofnodi nifer yr achosion hysbys. Mae pob un o’r tri awdurdod lleol ym Mae’r Gorllewin yn cynnal eu cronfa ddata eu hunain o’r holl blant a’r bobl ifanc hynny, sy’n cael eu monitro o dan y Protocol Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant (CSE). Rhennir y gronfa ddata â’r Heddlu i sicrhau bod y data yn cyd-fynd rhwng yr asiantaethau. Yna mae’n cael ei rhannu â Bwrdd Diogelu Plant Bae’r Gorllewin.

Ym Mae’r Gorllewin ar hyn o bryd mae 44 o blant a phobl ifanc sy’n cael eu monitro o dan y Protocol CSE.

- Pen-y-bont ar Ogwr: 15
 - Castell-nedd Port Talbot: 8
 - Abertawe: 21
-

Bu gostyngiad yn y nifer hon dros sawl mis, nid oherwydd bod monitro’n llai effeithiol ond oherwydd gwahanol ffactorau. Er enghraifft:


- Gellir priodoli gostyngiad bach yn y niferoedd i bobl ifanc yn cyrraedd 18 oed a nifer lai eto o bobl ifanc sy’n “Derbyn Gofal” yn cael eu lleoli y tu allan i ardal Bae’r Gorllewin.



GOFALWYR IFANC

Gofalwr ifanc sy'n cymryd cyfrifoldeb am rywun sy'n dost, anabl, oedrannus, sy'n dioddef tralod meddwl, neu wedi'i effeithio gan gamddefnyddio sylweddau neu sydd â chyfrifoldeb sylweddol i ofalu am frawd neu chwaer.

▼ Bae'r Gorllewin – Gofalwyr Ifanc



Mae'r graff uchod yn dangos nifer y gofalwyr ifanc hysbys ym Mae'r Gorllewin. Mae tystiolaeth yn awgrymu tebygolrwydd bod 'na nifer o ofalwyr ifanc nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ac nid yw'r awdurdodau a'r gwasanaethau iechyd yn gwybod amdanynt.





PWY SY’N DERBYN CYMORTH A PHA GYMORTH SYDD AR GAEL?

O dan y Ddeddf mae’n ofynnol bod awdurdodau lleol, gyda chymorth partneriaid y Bwrdd Iechyd Lleol, yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â lles, gofal a chefnogaeth yn eu hardal, a (lle bo’n briodol) cymorth i ddefnyddio’r rhain.

— CYMORTH CYNNAR

Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) yn rhaglen unigryw i Gymru. Disgrifir ei gwaith yn fanwl ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a’r rheoliadau cysylltiedig. Mae IFSS wedi bod ar gael ar draws Cymru er 2014.

Ar draws Bae’r Gorllewin credir bod anghenion plant yn cael eu hateb orau o fewn eu teuluoedd eu hunain os gellir gwneud hyn yn ddiogel. Mae helpu teuluoedd i aros gyda’i gilydd yn ffocws allweddol i bob gwasanaeth ac mae’n dechrau trwy adnabod angen yn gynnar ac ymyriad cynnar ac effeithiol. Gall cymorth atal ac ymyrryd yn gynnar hyrwyddo canlyniadau lles da i blant a phobl ifanc, gan eu helpu i fyw bywyd iach a llawn. Mae gwasanaethau sy’n canolbwyntio’n gryf ar deuluoedd yn helpu i leihau nifer y plant a phobl ifanc sy’n cyrraedd y drothwy ar gyfer ymyrryd statudol, er enghraifft, plant y mae angen cynllun amddiffyn plant arnynt, achosion gofal.



DECHRAU'N DEG

Mae rhai gwasanaethau fel Dechrau'n Deg ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Dechrau'n Deg yn rhan o raglen y blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru i deuluoedd a phlant dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae pedair elfen allweddol i'r rhaglen Dechrau'n Deg:

- Gofal plant rhan-amser o safon am ddim i blant 2-3 oed
- Gwell gwasanaeth ymweliadau iechyd
- Mynediad i raglenni rhianta
- Cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu

Yn 2015-2016, ym Mae'r Gorllewin roedd cyfanswm o 6,995 o blant dan 4 oed wedi elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg. Roedd hyn yn 30.3% o'r boblogaeth dan 4 oed.

▼ Canran y plant dan 4 sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg ym Mae Gorllewin (2015-2016)

	Abertawe	Castell-nedd Port Talbot	Pen-y-bont ar Ogwr	Cymru
% y plant dan 4 oed sy'n derbyn Gwasanaethau Dechrau'n Deg	29	39	23	28

Pan gawsant eu hasesu yn 36 mis oed, roedd 62% o blant sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg ym Mae'r Gorllewin wedi cyrraedd neu wedi mynd ymhellach na cherrig milltir datblygiadol. Roedd hyn wedi cymharu â chyfartaledd Cymru o 52%.



TÎM O AMGYLCH Y TEULU

Mae Tîm o Amgylch y Teulu hefyd ar gael ym mhob awdurdod lleol Cymru. Os oes gan deulu anghenion lluosog sy'n fwy eang nag y gall un gwasanaeth roi sylw iddynt, mae Tîm o Amgylch y Teulu yn cynnig modd o sicrhau,, bod teuluoedd:

- yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn effeithiol;
 - y mae eu cryfderau a'u hanghenion yn cael eu hasesu, ac
 - Mae'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'r holl adnoddau lleol i sicrhau bod cryfderau'r teulu a'r gymuned yn cael eu harneisio ac i atal problemau rhag gwaethygu.
-

Yn ystod 2014-2015 atgyfeiriwyd cyfanswm o 1,014 o blant a phobl ifanc i'r Tîm o Amgylch y Teulu ym Mae'r Gorllewin:

- Pen-y-bont ar Ogwr: 399
 - Castell-nedd Port Talbot: 313
 - Abertawe: 302
-

Sylwch: Nid yw Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi atgyfeiriadau Tîm o Amgylch y Teulu, ond maen nhw'n casglu atgyfeiriadau'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd sy'n bwydo i mewn i'r broses Tîm o Amgylch y Teulu.



— GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH

Fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2004 sy'n darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o 6 Ebrill 2016 mae darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ofynnol. Rhaid i awdurdodau lleol gyda chymorth partneriaid Byrddau Iechyd Lleol sicrhau darpariaeth gwasanaethau i roi gwybodaeth a chyngor ar les, gofal a chymorth yn eu hardal a (lle bo'n briodol) cymorth i ddefnyddio'r rhain.

— BWRDD DIOGELU PLANT BAE'R GORLLEWIN

Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin yn Ebrill 2013 a bob blwyddyn ers hynny mae wedi datblygu cynllun busnes a gweithredu sy'n amlinellu blaenoriaethau'r Bwrdd a sut maen nhw'n cyd-fynd â'i fusnes craidd. Mae'r blaenoriaethau strategol yn cynnwys y canlynol:

- Diogelu plant rhag esgeuluso
 - Diogelu plant rhag cam-drin domestig a'u cefnogi i feithrin perthnasau iach
 - Atal a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau seicoweithredol
 - Adnabod a diogelu plant sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol.
-



— GOFAL MAETH

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y gofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo ym mhob un o'r awdurdodau lleol ym Mae'r Gorllewin. Mae'r plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys y rhai ar orchmynion gofal a phlant eraill y mae llety wedi cael ei ddarparu ar eu cyfer gan yr awdurdod lleol. Mae rhai plant hefyd yn derbyn gofal oherwydd mae'r awdurdod lleol yn darparu llety at ddibenion seibiant. Mae lleoliadau maeth yn cael eu lleoli bob tro yn neu o gwmpas yr awdurdod lleol perthnasol ac felly maen nhw'n fwy addas yn gyffredinol i hyrwyddo cyswllt teuluol, cynnal addysg, hunaniaeth y plentyn a rheolaeth achos effeithiol ac effeithlon. Maen nhw hefyd yn fwy cost-effeithiol.

▼ Nifer y Gofalwyr Meath wedi'u cymeradwyo fel yn 31 Mawrth

	Pen-y-bont ar Ogwr	Castell-nedd Port Talbot	Abertawe	Bae'r Gorllewin
2012 - 2013	161	193	223	738
2013 - 2014	171	204	233	608
2014 - 2015	175	189	223	587



— GWASANAETH INTEGREDIG CYMORTH I DEULUEDD

Mae'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) yn wasanaeth aml-asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd wedi'u heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau ar draws ardal Bae'r Gorllewin. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn weithredol er 2013 ac mae wedi sefydlu cymorthfeydd ym mhob un o'r tair ardal Awdurdod Lleol. Bwriad y rhain yw codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol, ac i'w cynorthwyo i nodi a delio ag atgyfeiriadau posibl.

Rhwng Ionawr 2016 ac Ionawr 2017 roedd IFSS wedi derbyn 107 o atgyfeiriadau (targed Llywodraeth Cymru ar gyfer Bae'r Gorllewin yw 100). O'r rhain, y brif broblem o ran camddefnyddio sylweddau oedd camddefnyddio alcohol.



RHIANTA CORFFORAETHOL

Ar draws Bae'r Gorllewin, mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth bod barn plant a phobl ifanc yn annatod o ran cynllunio a darparu gwasanaethau.

Pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol o dan Orchymyn Gofal, mae'r cyngor yn gweithredu fel rhiant corfforaethol â chyfrifoldeb cyfreithiol a moesol ar gyfer y plentyn hwnnw. Er bod llawer o waith rhianta corfforaethol y cyngor o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan weithwyr proffesiynol gofal plant, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, mae ei aelodau etholedig (cynghorwyr) i gyd yn chwarae rôl bwysig.

Fel rhieni corfforaethol mae gan bob cynghorydd gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal yn gallu cael y canlyniadau yr hoffai pob rhiant da eu cael ar gyfer eu plant. Mae hyn yn golygu sicrhau eu bod yn ddiogel a darparu cyfleoedd i'w helpu i gyflawni eu potensial. Mae gan rieni corfforaethol gyfrifoldeb am addysg, hyfforddiant, iechyd, lles hamdden, llety a chyfleoedd diwylliannol eu plentyn.

Mae gan bob cyngor ym Mae'r Gorllewin Banel neu Fforwm Rhianta Corfforaethol sy'n cynnwys grŵp o gynghorwyr sydd â rôl bwysig o ran hyrwyddo'r rôl o rianta corfforaethol yn ac y tu allan i'w hawdurdod lleol a chyfrifoldebau ffurfiol ychwanegol yn ymwneud â rhianta corfforaethol. Mae gan aelodau o'r Panel/Fforwm ddealltwriaeth fanwl o'r problemau sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal a byddan nhw'n dadlau'n gryf o blaid eu hawliau. Maen nhw'n adolygu ac yn monitro gwasanaethau a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu diwallu a bod proses gynllunio gadarn ar waith.

Mae gan aelodau o'r Panel/Fforwm gyswilt â phlant a phobl ifanc er mwyn deall eu barn a'r hyn sydd o wir bwys iddynt.



GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID AC YMYRRYD YN GYNNAR BAE'R GORLLEWIN

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin (Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid) yn defnyddio ymagwedd aml-asiantaeth at droseddau ieuenctid. Mae'r asiantaeth yn cynnwys staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Adran Iechyd, yr Adran Addysg, a staff wedi'u comisiynu o Asiantaethau Camddefnyddio Sylweddau. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed ac mae ganddo 3 phrif faes gwaith:

Atal Troseddau: Mae cyfran fawr o waith yn ymwneud ag atal pobl ifanc rhag troseddu gan leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid drwy ddargyfeirio.

Plant a phobl ifanc sy'n troseddu: Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi dod i sylw'r Heddlu a'r llysoedd oherwydd eu troseddu. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn goruchwyllo'r person ifanc drwy gydol ei orchymyn. Yn ystod yr amser hwn, mae'r gwasanaeth yn edrych ar ffyrdd i helpu'r person ifanc er mwyn ei atal rhag aildroseddu.


Diogelwch Cymunedol: Mae nifer fach o bobl ifanc yn parhau i aildroseddu ac mae rhai pobl ifanc yn cyflawni troseddau difrifol iawn. Er mai carchar yw'r cam eithaf, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weithio gyda'r person ifanc yn ystod ei amser yn y carchar a phan fydd yn cael ei ryddhau yn ôl i'r gymuned.



CANLYNIADAU CYFIAWNDER IEUENCTID

Mae newydd-ddyfodiad am y tro cyntaf yn berson ifanc sydd wedi cael canlyniad o sylwedd am eu trosedd ac wedi dod i mewn i'r system gyfiawnder am y tro cyntaf.

▼ Newydd-ddyfodiaid am y Tro Cyntaf i'r System Cyfiawnder Ieuenctid 2015-2016



Mae nifer o ganlyniadau posibl ar gyfer y bobl ifanc sy'n dod i sylw'r gwasanaeth:

- Gwneir penderfyniadau nad ydynt yn ymwneud â throedd gan Fiwro Castell-nedd Port Talbot yn hytrach na'r llys. Nid yw'r rhain yn troi'r person ifanc yn droseddwr.
- Mae Rhybuddiadau Ieuenctid yn benderfyniad a wneir y tu allan i'r llys y gellir eu defnyddio fel dewis arall yn lle erlyn troseddwr ifanc (10-17 oed) mewn rhai amgylchiadau. Gellir rhoi Rhybuddiad Ieuenctid ar gyfer unrhyw drosedd lle mae'r troseddwr ifanc yn cyfaddef trosedd, mae digon o dystiolaeth ar gyfer disgwyliad realistig o gollfarn ond nid yw er budd y cyhoedd i erlyn. Bwriad Rhybuddiadau Ieuenctid yw darparu ateb cymesur ac effeithiol i droseddu.
- Mae Gorchmynion Atgyfeirio yn ddedfrydau unigryw sy'n cynnwys y gymuned leol yn uniongyrchol, trwy aelodau gwirfoddol o'r panel troseddwr ifanc, i sicrhau bod y troseddwr ifanc yn atebol am ei weithredoedd.
- Mae Gorchmynion Ieuenctid yn ganlyniadau o sylwedd a roddir gan y llys ar gyfer troseddau.





PETHAU Y MAE POBL WEDI'U DWEUD SYDD O WIR BWYS IDDYNT

- Digon o glybiau, gweithgareddau a digwyddiadau a drefnir y tu allan o'r ysgol.
 - Darparu lleoedd diogel a lleol i gwrdd â ffrindiau, gan gynnwys cyfleusterau fel meysydd chwaraeon a pharciau.
 - Cymorth i bobl ifanc i'w helpu i gynnal perthnasau cymdeithasol teuluol a phersonol.
-





PA NEWIDIADAU Y MAE'N RHAI D I NI GYNLLUNIO AR EU CYFER?

- Datblygu gwasanaethau sydd â'r nod o gefnogi teuluoedd i leihau'r risg sy'n arwain at enwau plant yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Mae angen wedi cael ei nodi i gryfhau gwasanaethau ar gyfer plant sy'n ofalwyr.
- Y gostyngiad diogel parhaus yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ar draws Bae'r Gorllewin.
- Gwell canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy welliannau i'w lles a gyflawnir trwy gontinwmm o wasanaethau atal effeithiol, ymyrryd yn gynnar, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd; yn ogystal â drws ffrynt cadarn ac ymateb ardal i blant mewn angen.
- Parhau i wella effeithiolrwydd a llywodraethu i ddiogelu ein plant a phobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed ar lefel leol a rhanbarthol.
- Gwella ansawdd a gwerth am arian lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn iddynt gael sefydlogrwydd cyn gynted â phosibl ac i wella eu llwybr bywyd.
- Buddsoddi yn y gweithlu i sicrhau rhagoriaeth ymarferol; drwy arwyddion o ddiogelwch, adeiladu ar y sail dystiolaeth ar yr ymyriadau sy'n gweithio a chyfrannu at y model newydd o wasanaethau plant yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.
- Gwella safonau cyflawniad a chyrhaeddiad i bawb, gwella'r amgylchedd dysgu, a gwneud gwell defnydd o adnoddau corfforol, ariannol a dynol.
- Mae angen mwy o opsiynau llety ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gadael y system gofal.
- Mae angen gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant drwy Fwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin..




- Er bod sefydlogrwydd lleoliad cyffredinol Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mae Gorllewin ychydig yn well na chyfartaledd Cymru, bu ychydig o gynnydd yn nifer y plant y mae eu lleoliad wedi methu 3 gwaith neu fwy. Mae'n hanfodol bod plant mewn lleoliadau sefydlog er mwyn eu cefnogi i feithrin cysylltiadau a pherthnasau cadarnhaol, a fydd yn helpu i ddatblygu eu gwydnwch i fod yn oedolion llwyddiannus. Er mwyn sicrhau lleoliad sefydlog, mae'n bwysig bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu i ofalwyr a phlant.
- Mae angen gwella goruchwyliaeth glinigol gofalwyr maeth a'r rhai sy'n cefnogi gofalwyr maeth.
- O ran y plant sy'n cael eu hasesu fel rhai ag anghenion therapiwtig mae'n bwysig ateb eu hanghenion boed hynny drwy'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol neu drwy wasanaethau a gomisiynir.
- Rhaid i wasanaethau cymorth i deuluoedd allu parhau i gefnogi gwaith adsefydlu plant i'w teuluoedd lle mae hyn yn bosibl drwy ddarparu gwasanaethau cynadleddau grwpiau teulu; cyngor a chymorth ar rianta pan fo angen.
- Parhau i ddatblygu'r cysylltiadau â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg i gefnogi perfformiad addysgol plant sy'n Derbyn Gofal. Mae cysylltiad rhwng sefydlogrwydd lleoliad a chynnydd mewn perfformiad addysgol.
- Yn ogystal, mae angen sicrhau trefniant comisiynu cadarn ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth i bob plentyn, nid dim ond y rhai sy'n derbyn gofal.

Gall gwahaniaeth yn yr angen am wasanaethau cymdeithasol rhwng awdurdodau lleol, i raddau helaeth, gael ei esbonio gan eu proffiliau demograffig, cymdeithasol ac economaidd amrywiol. Mae ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar eu proffiliau yn cynnwys maint a thrwch y boblogaeth, cyfran y cartrefi sydd â theuluoedd un rhiant, a'r lefelau o dlodi ac amddifadedd ehangach. Mae dal i fod llawer mwy i'w wneud. Mae'r meysydd lle mae angen gwneud cynnydd yn gyflym yn cynnwys:

- ▶ Nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal.
- ▶ Nifer y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n newid lleoliad ysgol.

Ar ben hynny, mae angen llawer mwy o waith manwl i ddeall, ar lefel strategol, anghenion y boblogaeth ym Mae'r Gorllewin. Mae angen llawer mwy o waith, er enghraifft, i hyrwyddo ein gwybodaeth ar bynciau a charfanau fel gwahaniaethau rhyw, ethnigrwydd, gofalwyr ifanc, iechyd meddwl a phlant anabl a'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol eraill.





WESTERN BAY

POPULATION ASSESSMENT REPORT

www.westernbay.org.uk